# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.04 - 10.13** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_01_07_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-567 Chwarae Teg i Fyfyrwyr Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb; a
- gofyn a oedd unrhyw ddeisebau blaenorol wedi arwain at faterion tebyg er mwyn adolygu'r camau a gymerwyd.

### 2.2 P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gyflwyno adroddiad ar y ddeiseb i'r Cynulliad â'r bwriad o gynnal trafodaeth ar y mater yn y Cyfarfod Llawn.

### 3.2 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog a yw'n fodlon cyfarfod â'r deisebydd, yn unol â chais y deisebydd.

### 3.3 P-04-536 Rhoi'r Gorau i Ffatrïoedd Ffermio Gwartheg Godro yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ofyn a allai ystyried edrych y materion fel rhan o'i flaenraglen waith, ac yn dibynnu ar ei ymateb;

- ystyried cyflawni darn o waith ar y ddeiseb fel rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor Deisebau; ac

ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio a Cyfoeth Naturiol Cymru gan roi cyfle iddynt ymateb i'r materion a godwyd gan y deisebwyr.

### 3.4 P-04-521 Rheoleiddio Safleoedd Carafannau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- cau'r ddeiseb gan y teimlwyd na ellid gwneud fawr ddim yn rhagor, yn gyffredinol nac yn benodol, o ran bwrw ymlaen â'r ddeiseb; ond wrth wneud hynny

- anfon manylion y ddeiseb at Darren Millar AC a Chadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan eu bod yn trafod y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru).

**3.5P-04-540 Stopio rhagfarn ar sail rhyw mewn cam-drin domestig**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am ymateb gan Cymorth i Fenywod; a

- Rhoi gwybod i'r deisebydd am drefniadau i graffu ar y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 1, a'i wahodd i gyfrannu at y broses honno.

**3.6P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog a'r deisebydd ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas Adareg Cymru.

**3.7P-04-514 Dylid adeiladu gorsaf bŵer sy'n defnyddio glo glân o Gymru a/neu gorsaf ynni adnewyddadwy yn hytrach na gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa B ar Ynys Môn.**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am ymateb gan Hitachi ynglŷn â'i waith i ddatblygu technoleg glo glân.

**3.8P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- drafod deisebau P-04-408 a P-04-505 ar wahân yn y dyfodol; ac

- thynnu sylw'r deisebydd at Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; a

- anfon manylion am y ddeiseb at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

### 3.9P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- drafod deisebau P-04-408 a P-04-505 ar wahân yn y dyfodol; ac
- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am wybodaeth am ei hymgyrch ddiweddar.

### 3.10 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gadw golwg ar y mater.

### 3.11 P-04-490 Meddyginiaeth Gwrth-retrofeirysol yng Nghaerdydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog pa gamau yr oedd wedi eu cymryd yn benodol i ymgynghori â chleifion HIV ynghylch y canllawiau; a
- gofyn am farn grwpiau o gleifion HIV ynghylch y mater.

### 3.12 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- rannu'r papur ymchwil gyda'r deisebwyr; a
- thrafod a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach yn sgil yr ymateb.

### 3.13 P-04-516 Gwneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- rannu'r papur ymchwil gyda'r deisebydd; ac

- ysgrifennu at yr Athro Graham Donaldson gan rannu'r papur ymchwil a gofyn a fyddai'n barod i gyfarfod â'r deisebydd er mwyn cael trafodaeth fanylach ynglŷn â phwnc y ddeiseb.

### 3.14 P-04-528 Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn eto i'r deisebydd a oes ganddo unrhyw sylwadau yn sgîl yr ymatebion a ddaeth i law hyd yma.

### 3.15 P-04-542 Cyfleoedd Ymarferol i Bobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r deisebydd a yw'n fodlon ar ymateb y Dirprwy Weinidog.

### 3.16 P-04-475 Yn eisiau - Bysiau i Feirionnydd

Trafododd y Pwyllgor bapur ymchwil ar ddeisebau P-04-475, 513 a 515 a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan ofyn iddi ymateb i nifer o gwestiynau, a fydd yn helpu gyda'r gwaith y mae'r Pwyllgor yn ei wneud.

### 3.17 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

Gweler y pwynt gweithredu o dan eitem 3.16 ar yr agenda.

### 3.18 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru

Gweler y pwynt gweithredu o dan eitem 3.16 ar yr agenda.